**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar gynnig y Gyllideb Atodol ar gyfer 2011–2012 (Gwanwyn 2012)

Chwefror 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar gynnig y Gyllideb Atodol ar gyfer 2011–2012 (Gwanwyn 2012)

Chwefror 2012

## Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried y defnydd o adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwario arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Ieuan Wyn Jones**
Plaid Cymru
Ynys Môn

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** .......... 5

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... 6

**Cyflwyniad** .......... 7

Pwy ydym ni? .......... 7

Beth yw cyllideb atodol? .......... 7

Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb atodol hon? .......... 8

**1. Trosolwg o'r gyllideb atodol** .......... 10

Newid arian refeniw yn arian cyfalaf .......... 10

Y System Cyfnewid Cyllidebau .......... 11

Arian wrth gefn sy'n weddill .......... 12

**2. Pecyn Ysgogi Economaidd** .......... 13

**3. Dyraniadau'r GIG** .......... 15

**4. Cronfa Twf Economaidd Cymru** .......... 20

**5. Menter Benthyca Llywodraeth Leol** .......... 21

**Tystion** .......... 22

**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** .......... 23

## Rhagair y Cadeirydd

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae gofyn i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar bolisïau, cynlluniau a chyflawniadau Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gael y gwerth gorau o bob ceiniog o bob punt o arian cyhoeddus a gaiff ei wario.

Ym mis Medi 2011, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid gynnig i'r Pwyllgor Cyllid i ddiwygio cynnig cyllidebol Llywodraeth Cymru drwy symud i gael terfyn gwariant sengl, yn hytrach na chyfansymiau rheoli cyllidebau unigol, ar gyfer pob prif grŵp gwariant (MEG). Cytunwyd ar y model diwygiedig hwn ar gyfer ffurf cynigion cyllidebol yn y dyfodol, yn amodol ar ein bod yn cytuno ar brotocol cyllidebol. Diben y protocol hwn yw sicrhau tryloywder a'r gallu i graffu'n effeithiol ar yr arian a wariwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gan mai hon yw'r gyllideb atodol gyntaf i gael ei chyflwyno ar y sail ddiwygiedig hon, hoffwn groesawu dull agored a thryloyw Llywodraeth Cymru o geisio hwyluso ein gwaith o graffu ar y gyllideb atodol.

Rydym o'r farn bod llawer i'w groesawu yng nghyllideb atodol Llywodraeth Cymru ac, yn benodol, y £303.1 miliwn ychwanegol a ddyranwyd mewn terfynau gwariant adrannol (DEL) ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, gyda diwedd y flwyddyn ariannol yn prysur agosáu, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i ddangos craffter effeithiol wrth reoli risgiau ariannol. Yn benodol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau ariannol statudol, heb gyfaddawdu ar gyflenwi gwasanaethau i gleifion.

I gloi, hoffwn ddiolch i bob aelod o'r Pwyllgor Cyllid am i ddealltwriaeth a'i gyfraniad drwy gydol yr ymchwiliad byr hwn.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y penderfyniad i ddarparu cyllideb o £80 miliwn dros bedair blynedd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar gynllun gwasanaeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn effeithio ar y gyllideb a ddyranwyd er mwyn trawsnewid gwasnaethau. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr o fewn Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif am eu rheolaeth ariannol, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-2012. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad llawn o'r holl gymorth ariannol ychwanegol a roddwyd i Fyrddau Iechyd Lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2011-2012, pan gyhoeddir yr adroddiad diwedd blwyddyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys y symiau a roddwyd i bob Bwrdd Iechyd Lleol, ac amseriad darpariaethau o'r fath. (Tudalen 19)

# Cyflwyniad

**Pwy ydym ni?**

1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwyllgor trawsbleidiol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n cynnwys Aelodau o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau ar y cynigion a osodir gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio arno, a chyflwyno adroddiad arno.

**Beth yw cyllideb atodol?**

3. Mae adran 125 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu y bydd o leiaf un cynnig ar y gyllideb (y cynnig cyllideb flynyddol) yn cael ei wneud ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

4. Mae adran 126 o'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer cynigion ar gyllidebau atodol. Gellir gwneud cynnig cyllideb atodol unrhyw bryd cyn, yn ystod neu ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati (hynny yw, unrhyw bryd ar ôl i'r cynnig cyllideb flynyddol gael ei basio), a'i brif bwrpas yn hanesyddol yw gofyn bod newidiadau canol blwyddyn i'r cynnig cyllideb flynyddol yn cael eu hawdurdodi, fel:

- amrywio'r adnoddau a fydd ar gael at ddibenion a gwasanaethau penodol (cwmpasau);[1]
- pennu cwmpasau newydd a dyrannu adnoddau ar eu cyfer, neu symud adnoddau rhwng cwmpasau;
- amrywio'r incwm y gellir ei gadw'n ôl; a
- newidiadau i gyfanswm yr arian parod y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

5. Fodd bynnag, ym mis Medi 2011, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ gynnig i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, i ddiwygio cynnig cyllideb Llywodraeth Cymru drwy symud i gael terfyn gwariant

[1] **Cwmpasau** – disgrifiadau o'r dibenion penodol y caiff Gweinidogion Cymru eu hawdurdodi gan y Cynulliad i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o gwmpasau a chyfyngiadau adnoddau eu nodi yn y cynnig cyllideb flynyddol. Yn gyffredinol, mae cwmpasau'n cyfateb i'r prif grwpiau gwariant a phortffolios y Gweinidogion.

sengl, yn hytrach na chyfansymiau rheoli cyllidebau unigol, ar gyfer pob prif grŵp gwariant (MEG).[2] Adroddodd y Pwyllgor Cyllid ar y cynnig hwn a chytunodd ar y fformat diwygiedig ar gyfer ffurf cynigion cyllideb yn y dyfodol, yn amodol ar gytuno i gael protocol cyllidebol.

6. Cyflwynwyd y gyllideb atodol bresennol ar y sail ddiwygiedig hon. Golyga hyn fod gan Lywodraeth Cymru ragor o hyblygrwydd i symud adnoddau rhwng portffolios, yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb atodol hon, ond cyn diwedd y flwyddyn ariannol, heb fod angen cynnig cyllideb atodol arall. Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn cadarnhau y bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys manylion am unrhyw amrywiadau ers y gyllideb atodol.[3] Rydym yn croesawu ymrwymiadau'r Gweinidog i gyflwyno'r adroddiad hwn ar sail debyg i'r gyllideb ac iddi ddod yn ôl at y Pwyllgor bryd hynny i drafod yr adroddiad, os bydd angen.

7. Fodd bynnag, mae'r gyllideb atodol yn parhau i fod yn gyfle gwerthfawr i'r Cynulliad cyfan ystyried rheolaeth ariannol canol blwyddyn Llywodraeth Cymru mewn modd agored a thryloyw.

**Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb atodol hon?**

8. Mae Rheol Sefydlog 20.33 yn nodi:

> "Ni chaniateir i gynnig cyllideb atodol a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 20.30 gael ei wneud naill ai:
>
> "(i) nes bod y pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig; neu
>
> "(ii) nes bod tair wythnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, os nad yw'r pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig."

9. Gosododd Llywodraeth Cymru y cynnig cyllideb atodol hwn ar 7 Chwefror 2012. Y dyddiad terfynol i ni gyflwyno adroddiad arno, felly, oedd 28 Chwefror 2012.

---

[2] **Prif grŵp gwariant (MEG)** – mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n nifer o haenau o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw'r haen uchaf ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gwmpasau Gweinidogion. Islaw haen y prif grŵp gwariant, nodir y gwariant yn ôl y **meysydd rhaglenni gwariant**, ac o fewn y rhain mae'r **camau gweithredu**.

[3] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Atodol 2011-12 Dogfen Naratif*, Chwefror 2012, tudalen 3

10. Atebodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, gwestiynau ar y gyllideb atodol yn ein cyfarfod ar 20 Chwefror 2012. Roedd tri swyddog yn bresennol gyda'r Gweinidog: Jo Salway (Pennaeth Cyllidebu Strategol), Mortin Solis (y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid) a Jeff Andrews (Cynghorydd Polisi Arbenigol).

# 1. Trosolwg o'r gyllideb atodol

11. Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol bresennol yn nodiei bod:

> "yn adlewyrchu'r broses o ailflaenoriaethu o fewn portffolios a throsglwyddo nifer o gyllidebau rhwng portffolios. Mae hefyd yn gwneud nifer o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys dyraniadau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog."[4]

12. Yn benodol, mae'r gyllideb atodol yn dyrannu cyfanswm DEL ychwanegol o £303.1 miliwn i bortffolios Llywodraeth Cymru. O'r cyfanswm hwn, mae £123.9 miliwn yn refeniw DEL a £179.9 miliwn yn gyfalaf DEL (sy'n cynrychioli cynnydd o 14.7% yng nghyfalaf DEL ers y gyllideb atodol flaenorol). Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn hyderus y bydd yr alldro terfynol yn agos i'w chynlluniau, fel y nodir yn y gyllideb atodol hon.[5]

13. Mae'r gyllideb atodol hefyd yn nodi manylion am nifer o drosglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, symudiadau cronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau o fewn portffolios, a rhyngddynt, yn ogystal â newid £97 miliwn o arian refeniw yn arian cyfalaf.

**Newid arian refeniw yn arian cyfalaf**

14. Nid yw'r broses o newid £97 miliwn o arian refeniw yn arian cyfalaf yn effeithio ar DEL cyffredinol Llywodraeth Cymru, ond yn hytrach mae'n lleihau'r refeniw DEL ac yn cynyddu'r cyfalaf DEL gan yr un maint. O'r broses o newid £97 miliwn:

- cafodd £8 miliwn ei newid o fewn y prif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth;
- cafodd £4 miliwn ei newid o fewn y prif grŵp gwariant Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy;
- cafodd £1.2 miliwn ei newid o fewn y prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth;

---

[4] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Atodol 2011-12 Dogfen Naratif*, Chwefror 2012, tudalen 2.
[5] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 5.

- cafodd £6.7 miliwn ei newid o fewn y prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu; a
- cafodd y £77.1 miliwn sy'n weddill ei newid o fewn y cronfeydd wrth gefn.

15. Wrth gyflwyno'r gyllideb atodol flaenorol ar gyfer 2011-12, nododd y Gweinidog mai ei bwriad oedd newidiad arian refeniw yn arian cyfalaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol ond, ar yr un pryd, roedd yn amcangyfrif mae hyd at £57 miliwn[6] fydd hyn, yn hytrach na'r £97 miliwn a nodwyd yn y gyllideb hon.

16. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog:

> "We are not just taking that £57 million but using £30.7 (sic: £30) million of the economic stimulus package… In addition… we have transferred a further £10 million from revenue to capital as a result of careful financial management."[7] Gan nodi: "it is the capital hit that we have sought to address."[8]

17. Gofynnwyd am eglurhad gan y Gweinidog am y defnydd y bwriedir ei wneud o'r gyllideb gyfalaf ychwanegol, yn enwedig y £6.7 miliwn a newidir yn arian cyfalaf o fewn y portffolio Gwasnaethau Canolog. Pwysleisiodd y Gweinidog:

> "[the funding would be used for] rationalising our estate… using it in a more efficient manner."[9]

a chytunodd i ddarparu nodyn ysgrifenedig am sut y mae'n bwriadu defnyddio cyllideb o'r fath.

18. Sicrhaodd y Gweinidog, hefyd, na fyddai'r trosglwyddiadau hyn yn cael unrhyw effaith andwyol, gan mai trosglwyddiadau unigryw yw y rhain a oedd yn bosibl yn sgil ailflaenoriaethu o fewn y portffolios a rhai newidiadau diffiniadol, ac na fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar gyllidebau canol blwyddyn.

**Y System Cyfnewid Cyllidebau**

19. Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol hefyd yn nodi bod bwriad i gario ymlaen £33.2 miliwn o'r £56.8 miliwn sy'n

---

[6] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011, paragraff 32.
[7] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 22.
[8] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 26.
[9] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 28.

weddill o refeniw wrth gefn Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r System Cyfnewid Cyllidebau (BES),[10] i flwyddyn ariannol 2012-13 at ddibenion penodol:

- £20 miliwn ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion;
- £8.2 miliwn ar gyfer y Pecyn Ysgogi Economaidd;
- £4 miliwn i hybu benthyciadau gan lywodraethau lleol ar gyfer prosiectau priffyrdd; a
- £1 filiwn ar gyfer Gwasanaethau Cynghori Am Ddim.

20. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi wedi hysbysu'r Trysorlys ynghylch ei bwriad i gario ymlaen £33.2 miliwn i'r flwyddyn ariannol nesaf, a'i hymateb oedd:

> "we have informed the Treasury quite clearly that we want to take advantage of the budget exchange mechanism."[11]

**Arian wrth gefn sy'n weddill**

21. Mae'r ddogfen naratif yn nodi bod hyn yn gadael £23.6 miliwn o arian wrth gefn, sydd heb ei ddyrannu, ar gyfer ymdrin ag unrhyw bwysau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12. Nododd y Gweinidog nad oedd yn rhagweld y byddai angen defnyddio'r gyllideb hon.[12]

22. Pebai'r gyllideb heb ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddogfen yn nodi mai'r bwriad oedd ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2012-13 o dan y BES.

---

[10] O dan y System Cyfnewid Cyllidebau (BES), gall Llywodraeth Cymru ddwyn ymlaen unrhyw danwariant, hyd at gap y cytunwyd arno. Yn wahanol i adrannau Whitehall, ni fydd gofyniad i roi gwybod i'r Trysorlys cyn y flwyddyn ganlynol ynghylch y tanwariant arfaethedig er mwyn cario'r arian yn ei flaen. Fodd bynnag, os bydd y weinyddiaeth ddatganoledig yn dewis rhoi gwybod i'r Trysorlys am ei thanwariant arfaethedig (erbyn dechrau mis Rhagfyr), gall gael mynediad at y swm a gariwyd ymlaen yn gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Y cap y cytunwyd arno o dan BES yw **0.6% o refeniw DEL** a **1.5% o gyfalaf DEL**; sy'n golygu mai'r capiau ar gyfer eleni fydd £79.8 miliwn mewn refeniw cyllidol a £20.9 miliwn mewn arian cyfalaf.
[11] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 20.
[12] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 62.

## 2. Pecyn Ysgogi Economaidd

23. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt) sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r swm canlyniadol o £38.9 miliwn sydd ar gael, yn sgil penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr.[13]

24. O'r £38.9 miliwn, caiff £30.7 miliwn ei ddyrannu drwy'r gyllideb atodol hon ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12; bydd yr £8.2 miliwn sy'n weddill yn cael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2012-13, a gwnaethpwyd dyraniadau mewn perthynas â hyn drwy Gyllideb Derfynol 2012-13.[14]

25. Cafodd y £30.7 miliwn sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb atodol hon ei ddyrannu o gronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:

- £0.7 miliwn i Addysg a Sgiliau ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd. Bwriedir iddo ariannu 800 o brentisiaethau ychwanegol yn 2011-12;
- £9.3 miliwn i Addysg a Sgiliau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion ledled Cymru;
- £5 miliwn i Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer gwaith paratoi ar Brosiect Tai Melin Trelái. Bwriedir i'r prosiect hwn greu hyd at 200 o swyddi y flwyddyn, gan ddechrau yn 2011-12;
- £3.5 miliwn i Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer cefnogi seilwaith ffyrdd yng nghyswllt Ardaloedd Menter;
- £3 miliwn i'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy er mwyn ymestyn cynllun effeithlonrwydd ynni Arbed;
- £9.3 miliwn i Dai, Adfywio a Threftadaeth er mwyn darparu 130 o dai fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru.[15]

---

[13] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), *Pecyn Ysgogi Economaidd*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 28 Tachwedd 2011.

[14] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Derfynol 2012-13: Nodyn Esboniadol*, Tachwedd 2011, tudalennau 4-5. Mae hyn yn dyrannu'r £8.2 miliwn sy'n weddill fel a ganlyn: £4.2 miliwn i'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd, £3 miliwn i Sgiliau Twf Cymru, a £1 filiwn i'r prosiect Tai Melin Trelái.

[15] Yn ychwanegol at hyn, gwnaethpwyd dyraniad pellach o £8.9 miliwn o gronfeydd cyfalaf wrth gefn i ariannu cynlluniau tai drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, ond mae hwn y tu allan i'r Pecyn Ysgogi Economaidd.

26. Mewn perthynas â'r £9.3 miliwn a ddyranwyd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion ledled Cymru, nododd y Gweinidog fod hwn wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o ddyraniad y Gronfa Gyfalaf Gyffredinol. Dywedodd hefyd:

> "local authorities indicated that they wanted to use it for repair and maintenance work … it has been used for refurbishment… it ranges from new heating systems to class and toilet refurbishment. Toilet refurbishment features quite well."[16]

27. Nododd y Gweinidog hefyd y bydd yn ein hysbysu ynghylch yr hyn a gyflawnwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r dyraniadau ar gyfer tai fforddiadwy. Rydym yn croesawu'r ystod hwn o gyllideb ychwanegol, yn enwedig y buddsoddiad i ddarparu tai fforddiadwy ledled Cymru. Lle y bo'n bosibl, ystyriwn ei bod yn briodol defnyddio arian cyhoeddus i ysgogi buddsoddiad sector preifat ychwanegol mewn amcanion cyhoeddus.

[16] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 74.

# 3. Dyraniadau'r GIG

28. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths) y bydd yn:

> "dosbarthu £100 miliwn yn ychwanegol i Fyrddau Iechyd yn nes ymlaen y mis hwn, o gyfuniad o gronfeydd y Llywodraeth ac o'm cyllideb fy hun."[17]

29. Yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid yn ddiweddarach yn y mis, eglurodd y Gweinidog:

> "It is, in fact, £103 million for the NHS in the current financial year, and that is part of a proposal for putting the NHS on a more sustainable footing. We will be clarifying the exact source of the funding in the supplementary budget. We think that it is likely to be about £63 million from reserves, with the remaining £40 million being funded from resources within the health and social services MEG. That has been set aside for contingency against significant cost pressures in the health service."[18]

30. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (2012-13), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, roeddem yn pryderu a fyddai'r arian ychwanegol hwn yn ddigonol ar gyfer y GIG, a nododd un o'n Haelodau:

> "as far as I am aware, in every previous financial year, in order to break even, money had to be found from the Government reserves to ensure that local health boards did not go over their budgets."[19]

31. Aethom ymlaen i argymell yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2012-2013:

> "bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaeth â'r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau gwasanaeth yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn gynted â phosibl, a bod y Gweinidog yna'n cyflwyno adroddiad ynghylch a fydd yr arian

---

[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, *£288 miliwn yn ychwanegol i GIG yng Nghymru*, 5 Hydref 2011.
[18] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011, paragraff 102.
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013, Tachwedd 2011, paragraff 155.

sydd ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol yn ddigonol i roi cynlluniau o'r fath ar waith."[20]

32. Mae'r gyllideb atodol bresennol yn gwneud dyraniad o £93 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn i'r cynllun *Cyflenwi'r GIG*. O hwn:

- nodir bod £63 miliwn "i osod seiliau ariannol cynaliadwy ar gyfer y GIG i'r dyfodol"; a
- bod £30 miliwn i gael ei ddyrannu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda "fel rhan o becyn pedair blynedd i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau."[21]

33. Esboniodd y Gweinidog y byddai Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cael cyfanswm o £80 miliwn dros bedair blynedd. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro'r hyn a ganlyn:

> "[why] you have already allocated the money to Hywel Dda health board even though it has not agreed its service delivery plan. That is currently out to consultation."[22]

34. Fodd bynnag, ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> "[this funding is based on] a five-year service strategy, which has been costed … we have allocated the £80 million on the basis of the Minister for health's confidence that there is a strategy to transform services."[23]

35. Rydym yn derbyn sicrwydd y Gweinidog bod y penderfyniad i ddyrannu £80 miliwn i Hywel Dda dros bedair blwyddyn ariannol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, mae statws strategaeth gwasanaeth Hywel Dda yn aneglur i ni, gan fod papur briffio Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, 'Datblygu ein Strategaeth Gwasanaethau Clinigol' a gyhoeddwyd yn 2012, yn nodi:

> "Lansiodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ei gyfnod o wrando ac ymgysylltu ar y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol ar 19 Rhagfyr 2011 cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn hwyrach yn 2012... Mae'n bwysig pwysleisio o'r newydd nad oes unrhyw

---

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013, Tachwedd 2011, Argymhelliad 9, tudalen 58.
[21] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Atodol 2011-12 Dogfen Naratif*, Chwefror 2012, tudalen 9.
[22] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 110.
[23] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraffau 111 a 116.

> benderfyniad wedi'u gwneud a gobeithiwn y byddwch chi yn ein helpu i lunio gwasanaethau diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol."[24]

36. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch sut y byddai'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar gynllun gwasanaeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn effeithio ar y gyllideb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn trawsnewid gwasnaethau Hywel Dda.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y penderfyniad i ddarparu cyllideb o £80 miliwn dros bedair blynedd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar gynllun gwasanaeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn effeithio ar y gyllideb a ddyranwyd er mwyn trawsnewid gwasnaethau.**

37. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog hefyd a fydd arian ychwanegol ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol ar ôl y gyllideb atodol hon, os nad oeddent yn llwyddo i gyflawni eu dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd 2011-2012. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud:

> "[I believe] the levels of financial risk have been significantly reduced by the additional funding that the Government has provided... Close financial monitoring on the strategic front with the Minister for health gives me confidence—you cannot eliminate all the financial risk—that we will break even financially."[25]

38. Gwnaethom dderbyn sicrwydd y Gweinidog y byddai Byrddau Iechyd Lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, wrth fwrw golwg dros adroddiadau cyllid ystod o gyfarfodydd byrddau rheoli Byrddau Iechyd Lleol, rydym yn pryderu bod risgiau ariannol sylweddol yn parhau i fodoli, a'i bod yn ymddangos bod ystod o Fyrddau Iechyd Lleol mewn perygl o wynebu diffygion ariannol. Er enghraifft, roedd adroddiad o Berfformiad Ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ym mis Ionawr 2012 yn nodi'r posibilrwydd y bydd diffyg ariannol o rhwng £6 miliwn a £12 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, gan nodi:

---

[24] Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Datblygu ein Strategaeth Gwasanaethau Clinigol: Papur Briffio, Chwefror 2012, tudalen 2.
[25] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 99.

> "The declared year end forecast submitted to the Welsh Government for the Health Board has, however, continued to remain this month at the £6m included in previous month's submissions, although there is still at this stage significant risk that the actual out-turn will be higher than this. Whilst the Health Board remains totally committed to achieving its previous forecast position, current underlying financial performance suggests that without action the trajectory is much nearer to the worst case included in this WG submission, which has improved, to £12m."[26]

39. Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Chwefror 2012, cadarnhaodd Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, y canlynol ynghylch y rhagamcanion cyfredol:

> "NHS Wales has currently overspent by £36 million… currently we are confident that NHS Wales will break even across all of the organisations… the NHS in Wales will be breaking even, collectively, at the end of this year. We have no intentions of pursuing a supplementary budget requests."[27]

40. Nododd Dr. Goodall, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, er bod potensial i gyrff unigol—gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol—or-wario, roedd yn rhagweld y byddai GIG Cymru yn ei gyfanrwydd yn mantoli'r gyllideb.

41. Rydym yn cydnabod sicrwydd y Gweinidog Cyllid na fydd angen cyllid ychwanegol ar GIG Cymru ym mlwyddyn ariannol 2011-12. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu bod y potensial i Fyrddau Iechyd Lleol or-wario yn parhau i gyflwyno risg ariannol sylweddol i gyllideb Llywodraeth Cymru.

42. Os bydd Byrddau Iechyd Lleol yn methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb, rydym yn rhagweld y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwireddu ei hymrwymiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef:

---

[26] Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Cyfarfod y Bwrdd Iechyd, 25 Ionawr 2012, Eitem 3.2, tudalen 3.
[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Chwefror 2012. Dyfyniadau wedi'u trawsgrifio o Senedd.tv gan nad oedd Cofnod o drafodion y Pwyllgor ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad.

> "[I will] hold senior management to account for the financial management of their organisations. They have a statutory responsibility. The NHS has to learn to live within its budget."[28]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr o fewn Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif am eu rheolaeth ariannol, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-2012.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad llawn o'r holl gymorth ariannol ychwanegol a roddwyd i Fyrddau Iechyd Lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2011-2012, pan gyhoeddir yr adroddiad diwedd blwyddyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys y symiau a roddwyd i bob Bwrdd Iechyd Lleol, ac amseriad darpariaethau o'r fath.**

[28] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 25 Ionawr 2012, paragraff 27

# 4. Cronfa Twf Economaidd Cymru

43. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ddatganiad[29] ynghylch creu dwy gronfa gwerth £55 miliwn:

- Cronfa Buddsoddi mewn Busnesau Bach a Chanolig Cymru – cronfa o £40 miliwn, gydag £20 miliwn i gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, a'r gweddill gan y sector preifat. Y bwriad yw ei defnyddio i gynnig benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a bydd yn cael ei rheoli gan Cyllid Cymru. Bwriedir i'r gronfa fod yn gwbl weithredol erbyn mis Mawrth 2012;
- Cronfa Twf Economaidd Cymru – cronfa o £15 miliwn ar ffurf grant nad oes yn rhaid ei dalu yn ôl i Fusnesau Bach a Chanolig er mwyn darparu mynediad di-oed i gyllid cyfalaf. Roedd y gronfa hon yn derbyn ceisiadau rhwng mis Rhagfyr 2011 a diwedd mis Ionawr 2012.

44. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau a fyddai'r £15 miliwn ar gyfer Cronfa Twf Economaidd Cymru yn cael ei dalu—yn rhannol neu'n gyfan gwbl—o Gronfa Fuddsoddi Sengl Llywodraeth Cymru. Nododd un o'n Haelodau:

> "It would be surprising if it came from the legacy single investment fund, because that is the fund allocated to businesses in order to invest and grow. I know that it is a declining fund, because a sector fund is taking up the cash, but it would be surprising if that was underspent at a time of economic difficulties."[30]

45. Rydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd yn cadarnhau'r mater gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ac yn cadarnhau'r mater hwn gyda ni yn unol â hynny.

[29] Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth), *Pecyn £55 miliwn i ysgogi'r economi*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 16 Tachwedd 2011.
[30] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff X.

## 5. Menter Benthyca Llywodraeth Leol

46. Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid, ar y cyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.[31] Diben y fenter hon yw darparu hyd at £170 miliwn mewn cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn buddsoddi mewn priffyrdd dros y tair blynedd nesaf.

47. Dywedodd y Gweinidog:

> "it is something that we feel very strongly will make a huge difference. In terms of the details, it is going to be an in-year grant and it is starting in 2012-13, reverting to the revenue support grant after that. It will be allocated via the road maintenance standard spending assessment formula."[32]

48. Rydym yn croesawu'r fenter arloesol hon, ac roedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'n darparu cyfanswm o £240 miliwn dros gyfnod o 22 mlynedd.[33] Edrychwn ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am sut y mae'r cynllun hwn yn datblygu, er enghraifft manylion am sut y bwriedir iddo weithredu a pa fuddion a ddisgwylir ohono.

---

[31] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, *Llywodraeth Cymru'n hybu benthyca gan Awdurdodau Lleol ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd*, 1 Chwefror 2012
[32] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 160.
[33] Cofnod o drafodion y Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2012, paragraff 160.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yma:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229

*20 Chwefror 2012*

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AC | Y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru |
| Jeff Andrews | Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru |
| Martin Sollis | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru |
| Jo Salway | Pennaeth Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yma: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
| --- | --- |
| Y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru | FIN(4)-03-12 (P1) |
| Prif Weithredwr a Chlerc, Comisiwn y Cynulliad | FIN(4)-03-12 (P2) |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | FIN(4)-03-12 (P3) |